

**Ffurflen Ymateb
i Ymgynghoriad**

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

E-bost / rhif ffôn:

rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais,
Aberystwyth SY23 2EU

Cwestiwn 1: Ydych chi'n teimlo bod hwn yn wasanaeth sydd ei angen ar ddisgyblion ysgolion arbennig Cymru? Fedrwch chi awgrymu dulliau eraill ar gyfer diwallu anghenion y plant?

Sylw: Mae'r cynnig yn un pwysig a synhwyrol.

Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu syniadau am ffyrdd o wella'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnis?

Sylw: Dylid ymrwymo'n glir i ddarparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn ymrwymo i ddarparu gohebiaeth yn y Gymraeg; mae hynny i'w groesawu, ond nid yw'n ddigonol ar ei ben ei hun. Ymhellach, awgrymwn nad yw'r frawddeg sy'n cyfeirio at ohebiaeth Gymraeg (paragraff 18) yn taro'r nodyn cywir; yn hytrach na dweud 'Bydd yr holl ohebiaeth yn cael ei chyfieithu i gydymffurfio â'r polisi ar y Gymraeg', gwell fyddai dweud 'Bydd yr holl ohebiaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn diwallu anghenion ieithyddol plant, pobl ifanc, rhieni ac ysgolion.'

Mae darparu'r gwasanaeth ei hun yn y ddwy iaith yn fater o gydraddoldeb (h.y. yr hawl i ddewis), ond yn ogystal, mae'n fater o anghenraid. Bydd disgyblion mewn ysgolion arbennig, sy'n uniaith Gymraeg, â sgiliau ieithyddol cyfyng, a/neu â sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu sy'n ei gwneud yn hollbwysig bod unrhyw brawf llygaid yn cael ei gynnal yn y Gymraeg. Mi fydd yn anodd iawn cael canlyniadau ystyrlon i'r profion heb y gallu i'w cynnal yn y Gymraeg.

Teimlwn y byddai cyfeiriad at egwyddorion strategaeth 'Mwy

na Geiriau' (a'r strategaeth ddilynol sydd yn yr arfaeth) yn briodol – gan ymgorffori agweddau'r strategaeth yn y cynllun a'r gwasanaeth newydd hwn:

- “Yr hyn sy'n ganolog i'r holl ddadleuon dros gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yw diogelwch, urddas a pharch i gleifion. Mae gofal ac iaith yn mynd law yn llaw a gellir peryglu ansawdd y gofal drwy fethu â chyfathrebu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn eu hiaith gyntaf.”
- “Mae yna lawer o bobl na allant gyfathrebu a chymryd rhan effeithiol yn eu gofal hwy eu hunain, fel partneriaid cyfartal, ond drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfrifoldeb felly ar ddarparwyr gwasanaethau i ateb yr anghenion gofal hyn. Gall iaith ymddangos yn fater ymylol i rai ond gall fod yn allweddol i ddefnyddwyr gwasanaeth.”
- “Mae pobl yn dewis derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg oherwydd mai dyna sydd orau ganddynt a dyna eu hawl. I eraill, fodd bynnag, mae'n fwy na mater o ddewis - mae'n fater o angen. Mae hyn yn arbennig o wir am yr henoed, pobl â dementia neu bobl sydd wedi cael strôc, neu blant bach nad ydynt yn siarad dim ond Cymraeg. Mae'n bwysig hefyd cydnabod nad yw'r defnyddiwr bob amser mewn sefyllfa i fynegi ei ddewis. Mae pobl yn aml yn agored i niwed, a heb hyder i ofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Rhaid i iaith felly fod yn rhan annatod o'r gofal a ddarperir.”

Bydd 'ymwybyddiaeth iaith' yn hollbwysig i'r rhai hynny o fewn y gwasanaeth nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n rhagweld unrhyw broblemau gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnis?

Sylw: Os na ddarperir y gwasanaeth yn y Gymraeg – a hynny fel 'cynnig rhagweithiol' (yn hytrach na disgwyl i bobl fynnu'r gwasanaeth yn y Gymraeg eu hunain), ni fydd canlyniadau'r profion llygaid yn ystyrlon mewn nifer o achosion.

Yn ogystal, mi allai'r profiad o gael y prawf drwy gyfrwng y Saesneg achosi pryder a straen i rai disgyblion.

Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y broses o gasglu cydsyniad ar gyfer yr archwiliadau llygaid?

Sylw:

Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Sylw:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: